**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Cofnod o Gyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru
# Dydd Iau 19 Mai 2022

## Yn bresennol

Aelodau'r Senedd:
Mark Isherwood AoS, (**yn Gadeirydd**), Llyr Gruffydd AoS, Ken Skates AoS, Gareth Davies AoS, Dan Rose (ar ran Carolyn Thomas AoS)
Aelodau Senedd San Steffan:
Liz Saville-Roberts AS a Rob Roberts AS
Arweinwyr Awdurdodau Lleol
Y Cynghorydd Charlie McCoubrey
Swyddogion
Stephen Jones (CLlLC) Ysgrifennydd a Chris Llewelyn (CLlLC), Prif Weithredwr a Chynrychiolydd Noddwr, Bryn Richards, Llywodraeth Cymru a Lee Robinson, Trafnidiaeth Cymru.
Siaradwr:
Lesley Griffiths, AoS Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd

## Croeso'r Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a drefnwyd i alluogi aelodau i rannu blaenoriaethau cyffredin gyda Lesley Griffiths AoS, Gweinidog Gogledd Cymru.

## Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd bod cofnodion y cyfarfod yn cael eu cytuno, ar ôl iddynt gael eu dosbarthu'n flaenorol heb anghydweld. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd ddosbarthu'r cofnodion eto i alluogi unrhyw aelod o'r grŵp nad oedd yn bresennol i awgrymu diwygiadau.

## Sylwadau Gweinidog Gogledd Cymru

Siaradodd Lesley Griffiths yn fyr am rôl Gweinidog Gogledd Cymru (GGC).

Crëwyd y rôl yn nhymor y Senedd diwethaf a Ken Skates AoS oedd y Gweinidog bryd hynny. Gall GGC ystyried unrhyw fater sy'n berthnasol i Ogledd Cymru, sy'n arwain at drafodaeth aml gyda Gweinidogion eraill am faterion penodol yng Ngogledd Cymru e.e. BIPBC a datblygu asedau ynni.

Mae GGC yn cadeirio cyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru yn rheolaidd ac mae Arweinwyr Cynghorau yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Mae Cabinet y Pwyllgor yn trafod materion penodol, yn derbyn sylwadau e.e. Metro Gogledd Cymru, BIPBC, Chwaraeon Cymru a chefnogaeth ar gyfer y sector bwyd a diod. Mae'n galluogi Arweinwyr Cynghorau i siarad am faterion pwysig yng Ngogledd Cymru

gyda'r Cabinet cyfan. Mae swyddogion LlC a Chynghorwyr Arbennig yn mynychu'r cyfarfod hefyd.

Mae gan y Gweinidog lwyth o brofiad gweinidogol blaenorol ar gyfer Rôl Gweinidog Gogledd Cymru. Y blaenoriaethau presennol yw bwrw ymlaen â buddsoddiadau a thwf mewn:

- Ynni Carbon Isel
- Bwyd a Diod
- Twristiaeth

Mae Gweinidog Gogledd Cymru wedi cyfarfod â Meiri Dinas-ranbarthau Lerpwl a Manceinion er mwyn meithrin cysylltiadau economaidd i fod o fudd i Ogledd Cymru o ran ynni (e.e. hydrogen, niwclear a gwynt ar y môr).

Yn rhan o'i phortffolio Materion Gwledig, mae Gweinidog Gogledd Cymru yn edrych ar gyfleoedd ar ôl Brexit ar gyfer y sector bwyd a diod yng Ngogledd Cymru.

## Trafodaeth

**Ynni**

Trafodwyd pwysigrwydd y sector ynni i Ogledd Cymru gan enwi prosiectau ynni y gallai pawb eu cefnogi:-

Llif y Llanw

- Morlais

Hydrogen gwyrdd

- Canolbwynt Hydrogen Menter Môn/Caergybi
- Canolbwynt Hydrogen Gogledd Cymru (Gogledd Ddwyrain Cymru)

Niwclear

- Adweithyddion Bach Modiwlaidd yn Nhrawsfynydd
- Wylfa

Gwynt ar y môr

- Ymestyn capasiti presennol (Mona a Morgan)
- Y Môr Celtaidd gyda Llywodraeth Iwerddon - Mae Llywodraethau Cymru ac Iwerddon wedi cytuno i ddilyn datblygiad capasiti tyrbinau gwynt sydd yn arnofio.

Clystyrau Diwydiannol/Hydrogen CCUS

- Consortiwm Hynet gydag aelodau/defnyddwyr yng Ngogledd Cymru (e.e. Hanson Cement)

**Rhyngweithio gyda Gweinidogion**

Dywedodd Llyr Gruffydd AoS ei fod yn amheus o rôl Gweinidog Gogledd Cymru i ddechrau gan fod pob Gweinidog yn "Weinidog ar gyfer Gogledd Cymru" drwy eu gwaith o ddatblygu polisi a goruchwylio darparu gwasanaeth.

Gofynnodd faint oedd y rôl fod i "arwain" Gweinidogion eraill ac a oedd y rôl wedi gwneud unrhyw wahaniaeth?

Dywedodd y Gweinidog nad ydi GGC yn arwain ar ffurfio polisi ond mae'n cael gwybod am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Gogledd Cymru. Mae hyn yn galluogi GGC i gynghori a chefnogi materion penodol fel Metro Gogledd Cymru a BIPBC.

Mae Gweinidog Gogledd Cymru yn cynnal nifer o gyfarfodydd gyda Gweinidogion eraill i ddweud sut mae mesurau a chynigion LlC yn cael eu hystyried yng Ngogledd Cymru, lle mae

canfyddiad o fod yn bell o Gaerdydd ac nad yw Gogledd Cymru yn cael cyfran deg bob amser o fuddsoddiad yng Nghymru. Mae GGC yn gweithio i wella'r canfyddiad hwnnw.
Mae Arweinwyr Cynghorau yn chwarae rôl wrth ddod a Gogledd Cymru a Chaerdydd yn agosach drwy fynychu Pwyllgor Cabinet i wneud sylwadau ar ran eu cymunedau a cheisio dylanwadu ar bolisi LlC er budd Gogledd Cymru.

Mae Pencadlys Banc Datblygu Cymru yn Wrecsam a Metro Gogledd Cymru yn gyflawniadau penodol lle mae Gweinidog Gogledd Cymru wedi gwneud gwahaniaeth.

Yn y weinyddiaeth hon mae'r rôl wedi helpu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddelio â phwysau diweddar ar BIPBC.

**<u>Twristiaeth</u>**
Gofynnodd Liz Saville Roberts AS:-

- Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i uwchraddio'r grid trydan er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd ynni a enwyd gan y Gweinidog?
  Bydd angen ymestyn isadeiledd gwefru cerbydau trydan ar gyfer twristiaeth a fydd yn ei dro angen grid â chapasiti uwch.

- Beth yw rôl Cwmnïau Llywodraeth Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar i fwrw ymlaen â gorsaf bŵer Trawsfynydd ar gyfer Adweithyddion Bach Modiwlaidd?

- A fydd Llywodraeth Cymru yn helpu atyniadau economi ymwelwyr Rheilffordd Treftadaeth i gael gafael ar lo?
  Mae'r Rheilffyrdd Treftadaeth yng Nghymru yn ased economaidd ymwelwyr sylweddol, gyda dau fath o reilffordd, cledrau cul (a adeiladwyd yn bwrpasol i gludo llechi a mwynau craig eraill i borthladdoedd a/neu ffatri toddi) a chledrau safonol, fel Rheilffordd Llangollen oedd yn rhan o'r rhwydwaith teithwyr cyn Beeching. Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi achosi prinder glo ar gyfer y rheilffyrdd stêm gan fod eu cyflenwad yn dod o ranbarth Donbas. Mae yna ofynion arbennig ar gyfer y glo sydd ei angen ar gyfer injans stêm. Mae angen y lefel cywir o fitwmen. Mae yna Lofa yn Ne Cymru sydd yn gallu darparu glo sydd ei angen yn amodol ar gymorth (gan Lywodraeth Cymru) i fuddsoddi mewn darn o gyfarpar i brosesu'r glo i fodloni'r anghenion penodol i bweru'r trên stêm.

  A fydd y Gweinidog yn siarad gyda chynrychiolwyr o Reilffyrdd Treftadaeth?

- Beth sy'n digwydd gyda datblygu Maes Awyr Llanbedr? A fydd yw gwaith o'i ddatblygu dal i gael ei arwain gan Ardal Fenter Eryri?

Dywedodd y GGC y bydd hi'n trafod y materion hyn gyda Vaughan Gething AoS, Gweinidog yr Economi a bydd naill ai GGC neu Weinidog yr Economi yn ysgrifennu at Liz Savile Roberts i ymateb.

Yna cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod am bwysigrwydd Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru a'i drydaneiddio. Dywedodd Ken Skates AoS:-

- Mae Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb yn ddull o geisio buddsoddiad yn Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru er mwyn iddo allu delio â mwy o drenau cludo pobl a threnau nwyddau er mwyn lleihau traffig ar y ffyrdd.
- Trafnidiaeth Cymru yw'r unig Gwmni Gweithredu Trenau i fynd yn ôl i amserlenni llawn cyn Covid.

Roedd yna drafodaeth ynglŷn ag arafwch y gwaith o adfer Gwasanaethau Avanti (Gogledd Cymru - Caer - Crewe - Euston Llundain).

Cytunodd y cyfarfod:-

- Y dylai'r Grŵp wahodd Peter Hendy i ymuno â'r cyfarfod yn y dyfodol i drafod Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb.
- Dylai Gweinidog Gogledd Cymru ysgrifennu at Avanti yn eu cefnogi i adfer gwasanaeth i lefelau cyn Covid fel platfform ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

Dywedodd Gweinidog Gogledd Cymru y bydd Pwyllgor Cabinet Gogledd Cymru nesaf yn cael ei gynnal ar 7 Gorffennaf 2022 ac fe ofynnir i Arweinwyr Cynghorau gyflwyno blaenoriaethau'r Cynghorau newydd.

Cynigiodd Chris Llywelyn i hwyluso'r adroddiad hwnnw a helpu Aelodau i ddod â'r wybodaeth ynghyd mewn un cyflwyniad gan y bydd yn cyfarfod y chwe Arweinydd yn fuan. Bydd CLlLC yn parhau i hwyluso'r chwe Arweinydd o Ogledd Cymru sydd yn ymgysylltu gydag Aelodau Senedd a Phwyllgor Cabinet Gogledd Cymru Llywodraeth Cymru/GGC.

Dywedodd Lee Robinson y byddai'n hoffi diweddaru'r Grŵp am gynnydd Metro Gogledd Cymru a buddsoddi yn isadeiledd y rheilffordd sydd ei angen i wella cysylltedd Gogledd Cymru i rwydwaith rheilffordd y DU.

Dywedodd Mabon ap Gwynfor y byddai'n hoffi'r Grŵp i drafod Tai yn cynnwys sut i ddefnyddio unedau gwag eto, digartrefedd ac ail gartrefi.